OLIVER(S), THOMAS (1725 - 1799), pregethwr gyda'r Wesleaid

Enw: Thomas Oliver(s)
Dyddiad geni: 1725
Dyddiad marw: 1799
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr gyda'r Wesleaid
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn Nhregynon, Maldwyn, yn 1725 (bedyddiwyd 8 Medi). Prentisiwyd ef yn grydd, a chrwydrai'r wlad gan ddilyn ei grefft. Argyhoeddwyd ef gan Whitefield, ym Mryste, ond â'r Wesleaid yr ymunodd. Yn 1753 dewisodd John Wesley ef yn bregethwr teithiol, a bu'n teithio am 22 mlynedd. Yn 1775 penododd Wesley ef yn arolygydd ei wasg yn Llundain, ond bu'n rhaid ei ddiswyddo yn 1789 am na wnâi'r gwaith i fodlonrwydd. Bu farw yn Llundain fis Mawrth 1799, a chladdwyd yn yr un beddrod â John Wesley - ni pheidiasai'r cyfeillgarwch agos rhyngddynt. Sgrifennodd lawer, yn rhyddiaith ac yn brydyddiaeth, ond fel awdur yr emyn ' The God of Abraham praise ' y cofir ef heddiw. Ymwelai â Chymru, ac y mae'n debyg mai ato ef y cyfeiriai Wesley pan ddwedodd nad oedd ond un o'i bregethwyr a fedrai Gymraeg - anghofiodd Wesley am Harri Llwyd o'r Rhydri. Olivers a anfonwyd gan Wesley i ddarbwyllo Owen Davies i gymryd at bregethu.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography (gan J. E. Lloyd)

R. Williams, 00434Mont. Worthies (yn llawnach)

A. H. Williams, *Welsh Wesleyan Methodism, 1800-1858 its origins, growth and secessions (1935)*, 58, 86

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 74049430

Wikidata: Q1320386

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/